



Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

Derbyn Trallwysiad Gwaed

Gwybodaeth i gleifion a'u teuluoedd, gofalwyr a gwarcheidwaid

Tynnodd Adroddiad yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig 2024 sylw at bwysigrwydd cynnwys cleifion mewn penderfyniadau ynghylch trallwysladau gwaed. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth am yr angen am drallwysiad gwaed, dewisiadau eraill posibl a'r risgiau sy'n gysylltiedig â thrallwysladau gwaed.



Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i unigolion y gallai fod angen trallwysiad gwaed arnynt neu unigolion sydd wedi cael trallwysiad gwaed — sy'n cynnwys celloedd coch, platennau, plasma neu gronyngelloedd. Gellir ei defnyddio hefyd gyda theuluoedd, gofalmwr neu warcheidwaid i'w helpu i ddeall y broses a'u cefnogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Os oes gennych gwestiynau neu bryderon ar unrhyw gam o'r broses drallwysio neu os oes angen manylion ychwanegol arnoch am eich trallwysiad — siaradwch ag aelod o'ch tîm gofal iechyd.


Pam y gallai fod angen trallwysiad gwaed arnaf?

Mae gwaed yn cynnwys nifer o gelloedd a phlasmâu gwahanol, a phob un yn chwarae rhan bwysig yn y corff.

- Mae celloedd coch y gwaed yn cario ocsigen o amgylch y corff; gelwir diffyg celloedd coch y gwaed sy'n iach yn anemia. Gall hyn gael ei achosi pan na fydd y corff yn cynhyrchu digon o gelloedd coch y gwaed neu oherwydd colli gwaed. Mewn rhai achosion, gellir rheoli anemia a'i drin drwy roi meddyginiaeth fel haearn; mewn achosion eraill, mae'n bosibl mai trallwysiad gwaed yw'r driniaeth orau, neu'r unig driniaeth.
- Rhan hylif y gwaed yw plasma ac mae'n cynnwys sylweddau gwahanol o'r enw ffactorau ceulo i helpu i atal gwaedu. Mae'n bosibl y bydd angen trallwysiad plasma i drin neu atal gwaedu os oes diffyg ffactorau ceulo yn eich corff. Mae cyfansoddion plasma yn cynnwys plasma ffres wedi'i rewi (FFP) a cryoprecipitate, a ddefnyddir yn bennaf i ddarparu ffactor ceulo o'r enw ffibrinogen.
- Celloedd yn y gwaed sy'n atal gwaedu yw platennau ac ynghyd â ffactorau ceulo maent yn helpu'r gwaed i geulo. Mae'n bosibl y bydd angen trallwysiad platennau i atal gwaedu neu drin gwaed drwy gynyddu nifer y platennau yn eich corff neu drwy roi platennau newydd yn lle'r rhai nad ydynt yn gweithio'n iawn.

Mae'r corff yn cynhyrchu celloedd gwaed newydd a phlasma newydd yn barhaus ond mae angen lefelau da o fitaminau a mwynau arno i wneud hynny. Ni fydd angen trallwysiad gwaed ar y rhan fwyaf o bobl sy'n anemig. Fodd bynnag, os collir llawer iawn o waed yn ystod llawdriniaeth fawr, yn dilyn damwain neu argyfwng, neu yn ystod genedigaeth, mae'n bosibl mai trallwysiad gwaed yw'r ffordd orau o adfer y lefel gwaed yn gyflym.

Weithiau nid yw'r môr esgyrn, sy'n cynhyrchu'r celloedd gwaed, yn gweithio'n iawn - gall hyn fod oherwydd clefyd neu oherwydd triniaeth fel cemotherapi. Gall swyddogaeth môr esgyrn gael ei heffeithio dros dro neu yn y tymor hwy. Yn yr achos hwn, bydd cynllun triniaeth yn cael ei lunio i ddiwallu eich gofynion penodol o ran trallwysu.



Cydsyniad ar sail gwybodaeth a gwneud penderfyniad ar y cyd

Fel pob triniaeth feddygol, dim ond pan fo raid y dylid rhoi trallwysiad gwaed, a hynny gyda'ch cydsyniad ar sail gwybodaeth. Bydd y risg sy'n gysylltiedig â chael trallwysiad yn cael ei chydbwysu yn erbyn y risg o beidio â chael un.

Eich hawl i ddewis

- Bydd eich tîm gofal iechyd yn darparu gwybodaeth am y risgiau a'r manteision o gael trallwysiad ac unrhyw driniaethau eraill (os ydynt ar gael). Mae hyn yn sicrhau y gallwch wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eich triniaeth.
- Bydd eich tîm gofal iechyd yn ateb cwestiynau a fydd gennych a, gyda'ch gilydd, byddwch yn gwneud penderfyniad ar y cyd yn seiliedig ar eich anghenion unigol.
- Eich dewis chi yw cytuno (cydsynio) i gael trallwysiad ai peidio. Os dewiswch beidio â chael trallwysiad, bydd eich tîm gofal iechyd yn rhoi gwybod i chi am ganlyniadau posibl.

Cymorth i deuluoedd, gofalwyr, neu warcheidwaid

I blant a chleifion sy'n ei chael hi'n anodd deall yr wybodaeth a ddarperir, bydd y tîm gofal iechyd yn rhoi'r wybodaeth lawn i'r claf ac yn ei gefnogi ynghyd ag aelodau priodol o'r teulu, gofalwyr neu warcheidwad(waid) er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er lles pennaf y claf.

Y rhai sydd wedi cael trallwysiad gwaed pan nad oedd modd cael cydsyniad ar sail gwybodaeth

Mae'n bosibl eich bod wedi cael trallwysiad gwaed heb iddi fod yn bosibl trafod hyn gyda chi ymlaen llaw a chael eich cydsyniad ar sail gwybodaeth ar y pryd (e.e. mewn argyfwng). Ar ôl ystyried y risgiau a'r manteision, bydd y tîm gofal iechyd sy'n gofalu amdanoch wedi penderfynu bod cael y trallwysiad er eich lles

pennaf. Os bydd hyn wedi digwydd, bydd aelod o'r tîm gofal iechyd yn trafod y rhesymau dros y trallwysiad gyda chi cyn gynted â phosibl, ac yn eich cynghori ynghylch y goblygiadau - un o'r rheiny yw na fyddwch yn gallu rhoi gwaed rhagor. Fe'ch anogir i ofyn cwestiynau a all fod gennych.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i

www.shotuk.org/news/download-the-my-transfusion-app/

Oes dewisiadau eraill yn lle cael trallwysiad gwaed?

Mae'n bosibl y bydd dewisiadau eraill ar wahân i drallwysiad gwaed ar gael yn dibynnu ar y sefyllfa. Gallai'r rhain gynnwys:

- Haeearn ac atchwanegiadau eraill: Gellir trin anemia oherwydd haeearn isel gydag atchwanegiadau haeearn. Gallwch helpu hefyd drwy sicrhau eich bod yn bwyta digon o fwydydd sy'n cynnwys haeearn yn rheolaidd. Mae'n bosibl y rhoddir haeearn hefyd os byddwch wedi colli llawer iawn o waed (er enghraifft yn ystod llawdriniaeth neu enedigaeth) i'ch helpu i wneud celloedd gwaed newydd.
- Arbed celloedd: Mae'n bosibl y bydd modd casglu gwaed yn ystod llawdriniaeth a rhoi eich gwaed chi yn ôl i chi drwy arbed celloedd.
- Weithiau gellir defnyddio meddyginiaethau sy'n gwella'r broses geulo gwaed, fel asid tranecsamig, i leihau faint o waed a gollir a lleihau'r angen am drallwysiad.





Beth ddylwn ddweud wrth fy nhîm gofal iechyd cyn cael trallwysiad gwaed?

Os oes gennych gerdyn sy'n nodi bod angen i chi dderbyn cyfansoddyn gwaed a bod gofyniad penodol yn gysylltiedig ag ef neu os ydych yn gwybod hyn o'ch hanes meddygol, rhowch wybod i'r tîm gofal iechyd sy'n gofalu amdanoch neu dangoswch y cerdyn iddynt cyn gynted â phosibl. Bydd eich tîm gofal iechyd hefyd yn gofyn cwestiynau er mwyn nodi a oes gennych ofynion penodol.

Sut fydd fy nhrallwysiad gwaed yn cael ei roi a sut fydda i'n teimlo?

- Fel arfer, rhoddir trallwysiad trwy diwb yn uniongyrchol i wythien yn y fraich
- Bydd staff yn cynnal gwiriadau adnabod gofalus i wneud yn siŵr eich bod yn cael y cyfansoddyn gwaed cywir
- Dylai eich tîm gofal iechyd gofnodi eich pwysau i'w helpu i benderfynu faint o waed sydd ei angen arnoch
- Mae'n bosibl y bydd mwy nag un uned yn cael ei rhoi i chi
- Gall gymryd hyd at 4 awr i drallwysu uned o gelloedd coch ond mae'n bosibl y bydd eich clinigydd yn penderfynu ei bod hi'n ddiogel i drallwysu dros gyfnod byrrach o amser
- Yn gyffredinol, mae trallwysiadau platennau a phlasma rheolaidd yn cymryd rhwng 30 munud ac 1 awr ar gyfer pob uned

- Bydd eich tymheredd, eich curiad calon, eich cyfradd anadlu a'ch pwysedd gwaed yn cael eu cofnodi fel gofyniad sylfaenol cyn, yn ystod ac ar ôl y trallwysiad a byddwch yn cael eich monitro'n ofalus drwy gydol y broses. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo unrhyw beth anarferol pan fydd trallwysiad yn cael ei roi.

Risgiau sy'n gysylltiedig â thrallwysiad gwaed

Mae trallwysiadau gwaed yn weithdrefnau cyffredin a all achub bywydau a gwella bywydau, ond mae'n bwysig eich bod yn gwybod (ers 1980 hyd at heddiw) na fyddwch yn gallu rhoi gwaed os ydych wedi cael trallwysiad gwaed. Mae marwolaeth oherwydd trallwysiad yn hynod o brin. Nid yw'r rhan fwyaf o gleifion sy'n cael trallwysiad yn profi cymhlethdodau na phroblemau. Fodd bynnag, mae risgiau cysylltiedig, sy'n perthyn i bedwar prif gategori:

1. Adweithiau

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i aelod o staff os byddwch yn datblygu symptomau yn ystod y trallwysiad neu ar ôl i chi ei gael, fel:

- Gwres
- Teimlo'n oer
- Teimlo'n goch yn eich wyneb
- Brech (fel arfer oherwydd alergedd)
- Cosi neu chwyddo newydd
- Poen yn y frest neu'r cefn
- Teimlo'n fyr eich gwynt
- Gweld gwaed yn eich wrin
- Y croen neu'r llygaid yn troi'n felyn

Anawsterau anadlu

Byddwch yn cael eich monitro am anawsterau anadlu drwy gydol y trallwysiad. Mae'r symptom hwn yn cael ei gymryd o ddifrif gan y gallai ddangos gorlwytho sy'n gysylltiedig â thrallwysiad ar y

cylochrediad (TACO). Mae hwn yn gyflwr lle y gall gormod o hylif roi pwysau ar eich corff. Cymerir camau cyn y trallwysiad i asesu eich risg o TACO ac i leihau'r risg honno. Rhaid i chi roi gwybod i'ch tîm gofal iechyd ar unwaith os byddwch yn cael anhawster anadlu fel y gellir rhoi triniaeth i chi ar frys.

Gall rhai adweithiau ddigwydd oriau, ddyddiau neu wythnosau ar ôl trallwysiad. Mae adweithiau difrifol i drallwysadau, fel adweithiau alergaidd difrifol, yn brin iawn ond, os byddant yn digwydd, bydd y staff wedi'u hyfforddi i'w hadnabod a'u trin.

2. Gwallau wrth adnabod cleifion

Os na fydd eich hunaniaeth wedi'i chadarnhau'n iawn, bydd risg o dderbyn y gwaed anghywir, a all fod yn niweidiol. Mae'r gwiriadau adnabod ar waith i'ch cadw'n ddiogel.

Ar wahân i argyfyngau, cymerir sampl gwaed cyn trallwysiad i benderfynu ar eich grŵp gwaed er mwyn sicrhau eich bod yn cael y cyfansoddyn sy'n cyfateb orau. Rhaid rhoi eich manylion adnabod ar y tiwb sampl pan fyddwch chi'n bresennol. Gofynnir i chi gadarnhau eich enw llawn a'ch dyddiad geni a bydd y rhain yn cael eu gwirio yn erbyn band adnabod (ar gyfer pob claf sydd yn yr ysbyty) a'r ffurflen gais am waed neu ffurflen gyfwerth. Mae'r gwiriad hwn yn cadarnhau bod y sampl yn cael ei chymryd o'r person cywir.

Mae gwisgo band adnabod yn hanfodol i bob claf sydd ar fin cael trallwysiad. Gofynnir i chi roi eich enw llawn a'ch dyddiad geni eto ychydig cyn i chi gael y trallwysiad. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei gwirio yn erbyn eich band adnabod, yr uned waed a'r awdurdodiad (presgripsiwn). Dywedwch wrth y staff os oes unrhyw un o'r manylion ar eich band adnabod yn anghywir.

Mae adnabod rhywun yn iawn yn hanfodol - Os na fydd yr aelod o staff yn gofyn am yr wybodaeth hon, peidiwch â themlo'n anghysurus yn ei atgoffa i wneud hynny.

3. Haint

Rhoddir gwaed gan wirfoddolwyr iach, di-dâl sy'n cwblhau holiadur iechyd bob tro y byddant yn rhoi gwaed. Bydd pob rhodd gwaed yn cael ei brofi am nifer o heintiau, yn cynnwys hepatitis B, C ac E, a HIV. Bydd hyn yn gwneud y siawns o drosglwyddo haint yn isel iawn. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o risg o hyd, yn cynnwys heintiau newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg nad yw profion cyfredol, o bosibl, wedi'u darganfod eto.

Ar hyn o bryd, ni all unrhyw un sydd wedi cael trallwysiad gwaed o unrhyw gyfansoddyn gwaed ers 1980 roi gwaed. Cafodd hyn ei gyflwyno'n wreiddiol i leihau'r risg o drosglwyddo amrywiolyn y clefyd Creutzfeldt-Jakob (vCJD) drwy drallwysiad.

Rhwng 2020 a 2024, adroddwyd am 4 Haint a Drosglwyddir drwy Drallwysiad (TTIs) yn y DU. Yn yr un cyfnod, rhoddodd y Gwasanaeth Gwaed yn y DU dros 10.8 miliwn o gyfansoddion gwaed i ysbytai i'w defnyddio ar gyfer trallwysïadau gwaed. I gael rhagor o wybodaeth am Heintiau a Drosglwyddir drwy Drallwysïadau ewch i dudalen we Peryglon Difrifol o ran Trallwysio (SHOT):

www.shotuk.org/resources/transfusion-safety-and-risks-in-the-uk/





4. Cymhlethdodau trallwysïadau hirdymor

Mae rhai cleifion yn ddibynnol ar drallwysïadau gwaed am gyfnodau hirach o amser. Gall hyn gynnwys cleifion â thalasaemia, clefyd y crymangeloedd neu anhwylderau'r mêr esgyrn. Gall trallwysïadau mynych wneud cleifion yn fwy agored i gymhlethdodau fel gorlwytho haearn a datblygiad gwrthgyrff. Gall y tîm gofal iechyd sy'n gyfrifol am eich gofal eich cynghori ar sut y gellir lleihau'r risgiau hyn a siarad â chi am driniaethau sydd ar gael.

Ar ôl eich trallwysïad

Os byddwch chi'n mynd adref ar ôl eich trallwysïad, gofynnwch i'ch tîm gofal iechyd am wybodaeth ynghylch beth i edrych amdano a phwy i gysylltu ag ef i gael cyngor os byddwch yn datblygu symptomau.

Dylid cynnwys gwybodaeth am eich trallwysïad, yn cynnwys cyfansoddion gwaed a roddwyd ac adweithiau neu gymhlethdodau, yn eich cofnod a'ch llythyr rhyddhau.

Cofiwch na allwch fod yn rhoddwr gwaed mwyach.

A allaf roi gwaed i'r teulu?

Mae risgiau difrifol yn gysylltiedig â gwaed a roddir gan berthynas i'r derbynnydd. Mae'r risgiau hyn yn gwneud trallwysiadau o'r fath yn llai diogel na chael gwaed gan roddwr nad yw'n perthyn iddo. Am y rheswm hwn, ni all unigolion roi gwaed i'w plentyn neu berthynas.

A allaf ofyn am waed penodol?

Bydd y labordy trallwysiadau sy'n darparu gwaed ar gyfer eich trallwysiad gwaed yn dewis unedau o grŵp gwaed addas ac yn sicrhau bod unrhyw ofynion penodol sy'n gysylltiedig â'r trallwysiad yn cael eu bodloni. Ni all ysbytai ddarparu gwybodaeth ynghylch a yw rhoddwr wedi cael ei frechu, gan nad yw hyn yn cael ei gofnodi gan Wasanaeth Gwaed y DU ac nid yw'n effeithio ar ddiogelwch nac ansawdd eich trallwysiad.

Pryderon sy'n benodol i chi

Dylai eich tîm gofal iechyd drafod unrhyw risgiau neu bryderon eraill sy'n benodol i chi. Gall y rhain gynnwys:

- Yr effaith ar eich problemau iechyd eraill
- Yr effaith ar opsiynau triniaeth yn y dyfodol
- Ystyriaethau crefyddol a rhai eraill nad ydynt yn gysylltiedig ag iechyd
- Ofn nodwyddau, pryderon am deimlo'n sâl wrth weld gwaed neu brofiad gwael wrth gael trallwysiad gwaed yn y gorffennol
- Cyfansoddion gwaed arbennig yn seiliedig ar ffactorau sy'n gysylltiedig â'ch triniaeth neu eich cyflwr e.e. gwaed arbelydredig i atal cymhlethdod prin o'r enw clefyd impiad yn erbyn gwesteiwr sy'n gysylltiedig â thrallwysiad.

Trafodwch unrhyw bryderon gyda'ch tîm gofal iechyd cyn i chi roi eich cydsyniad ar sail gwybodaeth i gael trallwysiad. Mae'n bwysig eich bod yn deall pam mae angen y trallwysiad arnoch a'ch bod yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn cwestiynau.

Y Ddyletswydd Gonestrwydd

Mae Gwasanaethau Trallwysio Gwaed y DU yn ymarfer y Ddyletswydd Gonestrwydd. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw pan fo digwyddiad annisgwyl neu anfwriadol wedi digwydd yr ymddengys ei fod wedi achosi niwed neu farwolaeth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r trallwysiad. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, caiff hyn ei gwmpasu'n benodol yn y gyfraith gan ddeddfwriaeth Dyletswydd Gonestrwydd. Gofynnwch i'ch tîm gofal iechyd am ragor o wybodaeth neu ewch i'r wefan ganlynol:

www.llyw.cymru/dyletswydd-gonestrwydd-y-gig

Rhagor o wybodaeth

Ap My Transfusions SHOT

www.shotuk.org/news/download-the-my-transfusion-app/

Cysylltu â ni

Paratowyd y daflen hon gan Rwydwaith Trallwysio Gwaed y DU ac Iwerddon ar ran 4 Gwasanaeth Gwaed y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

Cymru

Os oes gennych ymholiad ynglŷn â'r daflen hon, anfonwch e-bost at:

WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk

Sganiwch y cod QR yma i weld taflenni gwybodaeth eraill i gleifion:



Rhif Cyfeirnod: **BH-08, Rhifyn 2**

Dyddiad Cymeradwyo: **01/02/2026**

Dyddiad Adolygu: **01/02/2029**

